tŷ hafan
darparu gofal
bod yno

dechreuwch godi arian

mae tŷ hafan yn cynnig cysur, gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n byw bywydau byr a'u teuluoedd, gan eu helpu i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar ôl gyda'i gilydd.

I ddarparu'r gwasanaeth unigryw hwn yn rhad ac am ddim i'r teuluoedd hynny yng Nghymru sydd ein hangen, **rhaid i ni godi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn ac rydym angen eich help chi i gyflawni hyn.**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys digon o syniadau a gwybodaeth i'ch helpu i drefnu digwyddiad codi arian diogel, llwyddiannus a phleserus. **Os byddwch angen cyngor pellach, defnyddiwch www.tyhafan.org/fundraising neu rhowch alwad i ni ar 029 2067 2060.**

stori catrin

Mae Catrin, sy'n ddwyflwydd oed, yn sicr yn frwydrwr bach!

Chwe awr ar ôl ei geni drwy doriad Cesaraidd brys, cafodd ddau waedlif enfawr yn yr ymennydd a dechrau cael ffitiau. Ni ddisgwyliwyd iddi fyw mwy na dau neu dri diwrnod.

Nid oedd geiriau i ddisgrifio gofid ei rhieni Rachel ac Andrew, a oedd wedi bod yn edrych ymlaen cymaint at eu hail blentyn i wneud eu teulu'n gyflawn. Roedd eu merch gyntaf, Lauren, bron yn ddwy bryd hynny ac yn ysu am gael brawd neu chwaer fach i chwarae ag ef neu hi.

Yn rhyfeddol, goroesodd Catrin fach, ond yn drist fe'i gadawyd â pharlys pedwar aelod sbastig esblygol, microseffali ac oedi datblygiadol difrifol. Dangosodd sgan arbennig a gynhaliwyd yn ddiweddar ei bod hi, mewn gwirionedd, yn cael ffitiau yn barhaus. Mae angen cadw llygad arni'n gyson drwy gydol y dydd a'r nos.

Er mwyn cael cymorth gyda'i gofal a'i hanghenion corfforol cymhleth, mae Catrin wedi bod yn ymweld â Thŷ Hafan yn rheolaidd ers iddi fod ond ychydig fisoedd oed. Mae hi'n derbyn gofal un i un yma ac yn mwynhau'n arbennig chwarae â dŵr a bod yn yr ystafell amlsynhwyraidd lle y mae'r swigod lliw yn y tiwbiau dŵr yn ei chyfareddu.

Mae cannoedd o blant a phobl ifanc fel Catrin ledled Cymru sy'n brwydro bob dydd i wneud y mwyaf o'u bywydau gwerthfawr.

Helpwch i wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau nhw a'u teuluoedd drwy godi cymaint o arian ag y gallwch.

yr hyn sy'n wych am godi arian yw bod pawb yn gallu cymryd rhan a does dim terfyn ar y syniadau y gellid eu defnyddio.

Dyma rai awgrymiadau difyr i roi eich meddwl ar waith:

Reslo braich, Digwyddiad Ffŵl Ebrill, Gwisgo Anarferol, Ras Gwely, Diwrnod Glas, Noson Bollywood, Parti Coctel, Boreau Coffi, **Dyddiau Themâu Lliw,** Canu Carolau, Diwrnod Toesen, Disgo, Cinio a Dawns, Ras Wy ar Lŵy, Noson Eifftaidd, Gwagio Pwrs neu Boced

Paentio Wyneb, Gwisg Ffansi, Ras Hwyl, Parti Gardd, Noson Merched, Merlogampau, Siafio Pen, Gŵyl y Cynhaeaf, Diwrnod Arwr/Arwres, Noson Bwyd Rhyngwladol, Marathon Smwddio, Marathon Sglefrio ar Rew, Parti Gemwaith

Marathon Karate, Marathon Gweu, Diwrnod Ffurfwisg Caci, Llam Llyffant, Limbo, Dip Lwcus, Marathonau, Dawns gyda Masgiau, Milltir o Geiniogau, Enwch y..., Diwrnod Thema Narnia, Diwrnod Heb Wisg Ysgol, **Diwrnod Hosanau gwahanol,** Ras Rwystrau

Paentio, Taflu Crempog, Diwrnod Maldod, Cwad Feicio, Cwis Chwaraeon, Noson Rasio, Raffl, Diwrnod Enfys, Ras Sach, Swper Saffari, Arwerthiant Caethweision, Picnic Tedi Bêr, Ffair Deganau, Gornest Tynnu Rhaff, Arwerthiant Anrhegion Nad Oes Eu Hangen, **Diwrnod Wyneb i Waered**

Digwyddiad Fampiriaid a Bleidd-ddynion, Diwrnod Sant Ffolant, Nadolig Fictoraidd, Ras Waci, Stondin Eliffant Gwyn, Blasu Gwin, Diwrnod Thema Allfydol, Adeiladu/Gwneud Siâp-X, Rasio Cwch Hwylio, Diwrnod Ioga, Gwisgo fel Sombi, Ras Llwybr Igam Ogam.

Dyma rai enghreifftiau o ffyrdd y mae pobl fel chi wedi codi arian:

fel unigolyn

£15 drwy lenwi tiwb Smarties â darnau arian £1

£250 drwy noson ar thema Arwyr a Dihirod

£470 drwy noddi tynnu blew gyda chwyr

£2000 o ddiwrnod y merched yn Ascot

fel grŵp

£800 o barti pili-pala

£2000 o ddiwrnod golff elusen

£3500 drwy ddringo Mynydd Kilimanjaro

fel ysgol

£200 o bicnic Tedi Bêrs

£350 drwy ddiwrnod her mabolgampau

£400 drwy gêm pêl-droed athrawon yn erbyn disgyblion

£750 drwy ddiwrnod dim gwisg ysgol

fel myfyriwr

£400 drwy gwis 'University Challenge'

£600 drwy barti goleuadau traffig

£1200 drwy ddisgo distaw

yn eich gweithle

£100 rheolwyr yn gweini te prynhawn i'w staff

£300 o Ddiwrnod Gwisgo'n Anffurfiol

£1000 o Nosweithiau Cwis mewn tafarn leol

Gofynnwch a fydd eich cwmni yn barod i roi arian i gyfateb i'r swm a godir gennych. Mae hon yn ffordd wych o godi arian ychwanegol.

Pam na wnewch chi annog eich cwmni i'n mabwysiadu ni fel eich Elusen y Flwyddyn? Ffoniwch **029 2067 2080** neu ewch i **www.tyhafan.org/corporate**

pyjamas i'r gwaith... themâu lliwiau... jîns i'r ysgol... ffrog ddawnsio i bingo... hetiau doniol. ... gwisg ffansi... gwallt gwyllt... tiaras... adenydd tylwyth teg i'r feithrinfa... gwisg ffurfiol...

beth am gynnal diwrnod **gwisgwch fel y mynnoch** i godi arian i helpu plant a phobl ifanc sy'n byw bywyd byr i wneud y mwyaf o bob munud gwerthfawr sydd ganddynt ar ôl gyda'u teuluoedd.



Ewch i'r wefan **gwisgwch fel y mynnoch** i gael ysbrydoliaeth, gwybodaeth a deunyddiau y gellir eu lawrlwytho i'ch helpu i gael y gorau o'ch diwrnod codi arian…

www.dressupordown.co.uk

gwisgwch fel y mynnoch

canllaw cam wrth gam

1 I ddechrau. Penderfynwch pa fath o ddigwyddiad yr ydych yn mynd i'w gynnal. Ewch i dudalen 8 i gael cyngor ar gadw pethau'n ddiogel a chyfreithlon.

2 Rhowch alwad i ni a dywedwch wrthym beth yr ydych am ei wneud. Gallwn anfon atoch bosteri, ffurflenni noddi, manylion talu-i-mewn a chyngor ar wneud eich digwyddiad yn llwyddiant.

3 Cofrestrwch ar gyfer cael ffurflenni noddi neu sefydlwch dudalen cyflwyno rhodd ar-lein yn www.justgiving.com Gofynnwch i'ch noddwyr sy'n talu treth dicio'r blwch Rhodd Cymorth a rhoi eu henw llawn a'u cyfeiriad fel y gallwn hawlio 28c ychwanegol am bob £1 a roddir.

4 Dangoswch bosteri i hyrwyddo'ch digwyddiad. Sicrhewch fod y manylion yn glir am yr hyn y bwriadwch ei wneud. Cofiwch gynnwys y dyddiad, y lle a'r amser.

5 Gwaeddwch yn uchel! Mae eich papur newydd lleol bob amser yn chwilio am straeon sy'n hwyl ac yn ddiddorol – felly dywedwch wrthynt pam eich bod yn codi arian i Dŷ Hafan, beth yr ydych yn ei wneud, pryd a ble. Gallwn roi enghreifftiau o ddatganiadau i'r wasg i'ch helpu.

cewch lawer o hwyl, hwyl, hwyl!

Casglwch yr arian. Casglwch yr arian yr ydych wedi'i godi a'i anfon atom ni'n fuan wedyn, yn ddelfrydol ddim hwyrach na chwe wythnos ar ôl y digwyddiad. Cyn gynted ag y byddwn yn ei dderbyn, byddwn yn gallu ei ddefnyddio i ofalu am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Dylai'r arian gael ei gyfrif a'i gofnodi gan ddau o bobl nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, a'i roi yn y banc cyn gynted ag sy'n bosib. **Peidiwch ag anfon arian drwy'r post os gwelwch yn dda.**

Anfonwch eich rhodd (sieciau'n daladwy i "Tŷ Hafan") ac unrhyw ffurflenni noddi i'r cyfeiriad isod. Byddem yn hoffi clywed sut yr aethoch ati i godi arian i ni, felly rhowch y manylion gyda'ch rhodd os gwelwch yn dda.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, cysylltwch â ni ar **029 2067 2095** neu anfonwch e-bost at **askfundraising@tyhafan.org**

ei gadw'n ddiogel a chyfreithlon

Dyma ychydig o gyngor defnyddiol i sicrhau bod eich gweithgareddau codi arian yn ddiogel a chyfreithlon.

Plant dan 16 oed:

- rhaid iddynt gael caniatâd eu rhieni i gymryd rhan
- dylid eu goruchwylio pan eu bod yn gofyn am arian noddi neu'n ei gasglu
- ni ddylent fynd at bobl ddieithr
- ni chânt gasglu arian yn gyhoeddus nac o ddrws i ddrws

Digwyddiadau

Sicrhewch os gwelwch yn dda fod eich digwyddiad wedi'i drefnu'n effeithlon a diogel ac ystyriwch a ydych angen sicrwydd yswiriant.

Os yw eich digwyddiad yn cynnwys y cyhoedd mewn unrhyw ffordd, bydd angen i chi sicrhau bod gennych chi neu'r lleoliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. **Ni all Tŷ Hafan dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am eich digwyddiad nac am unrhyw un sy'n cymryd rhan ynddo.**

Efallai y bydd angen caniatâd yr awdurdod lleol ar gyfer digwyddiadau mewn mannau cyhoeddus, holwch eich cyngor lleol.

Mae angen cael caniatâd y perchnogion neu'r rheolwyr bob amser ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau ar dir neu eiddo preifat.

Byddwch angen trwydded gan eich Awdurdod Lleol ar gyfer:

- Casglu arian yn gyhoeddus
  (cysylltwch â ni'n gyntaf os gwelwch yn dda os ydych yn bwriadu gwneud hyn)
- Gwerthu alcohol
- Cerddoriaeth a dawnsio
- Loterïau e.e. raffl

Ni fyddwch angen trwydded os yw'r raffl yn cael ei chynnal fel rhan o ddigwyddiad arall megis noson gwis neu ginio lle bydd y gwerthu a'r tynnu tocynnau'n digwydd yn ystod y digwyddiad, a dim ond y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad sy'n cael prynu'r tocynnau. Ni cheir defnyddio mwy na £250 i brynu gwobrau ac ni cheir rhoi gwobrau mewn arian.

Ffotograffau

Sicrhewch eich bod yn cael caniatâd unrhyw un y byddwch yn tynnu lluniau ohono a sicrhewch fod hyn yn cynnwys pob defnydd posib, gan gynnwys y rhyngrwyd. Rhaid cael caniatâd gan rieni neu ofalwyr ar gyfer plant sydd dan 18. Wrth ddefnyddio'r ffotograffau hyn, peidiwch â chynnwys manylion personol megis enw a chyfeiriad plentyn.

I gael cyngor pellach, cysylltwch â Thŷ Hafan neu ewch i www.institute-of-fundraising.org.uk/informationaboutfundraising

diolch am eich cefnogaeth!

www.tyhafan.org

Tŷ Hafan - yr hosbis deuluol i fywydau ifanc. Cwrt Sant Hilari, Heol Copthorne, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6ES
Ffôn: 029 2067 2060 Ffacs: 029 2067 2061 Elusen Gofrestredig Rhif: 1047912. Mae Tŷ Hafan® yn nod masnach cofrestredig.